Gwyliau Gorwel

# Datganiad Hygyrchedd Taicroesion

Saif bwthyn Taicroesion yn ei diroedd ei hun ychydig oddi ar brif ffordd A496 un milltir i'r gogledd o dref Bermo. Mae gorsaf drên yn nhref Bermo, a gwasanaeth bysys a thacsi oddi yno.

Darperir man parcio i ddau gar, y tu allan i diroedd y bwthyn. Amgylchynir y bwthyn â lawntiau a llwybrau ar amryw lefelau, heb unrhyw lechweddau serth. Mae rhai llwybrau wedi'u llunio o gerrig gwenithfaen, eraill o gerrig mân neu goncrit. Mae waliau cerrig sych o amrywiol uchder o amgylch blodau a choed yma ac acw. Gellir cyrraedd lawnt yng nghefn y bwthyn fyny grisiau llydan (80cm) concrid, gyda chanllaw ar yr ochr chwith wrth esgyn. Neu mae llwybr yn arwain i'r lawnt gefn ar hyd ochr y bwthyn, ag un gris 15cm o uchder i'w gamu, yn arwain fyny llwybr sydd ar oledd cymedrol. Mae tŷ bach allanol yn rhan uchaf yr ardd gefn, a gris o 16cm i fynd i mewn iddo, ac mae ganddo lawr concrid.

Mae meinciau a chadeiriau gardd wedi'u gosod mewn amrywiol fannau yn y gerddi. Ceir bwrdd picnic wedi ei osod i lawr mewn cysgodfa, mae modd mynd ato i lawr grisau gwnithfaen garw, ac mae cerrig gwenithfaen naturiol anwastad yn lawr i'r man hwn.

Mae 2 fynedfa i'r bwthyn, mae'r brif fynedfa yn y blaen ac mae 2 ris i fynd i mewn i'r porth, 15 ac14cm o uchder, a gris o 15cm i fynd i mewn i'r bwthyn ei hun. Mae llifolau y tu allan i'r drws blaen. Gellir cyrraedd y drws cefn ar hyd llwybr sy'n mynd o amgylch ochr a chefn y bwthyn, ag 1 gris o 15cm i lawr mewn un man.

Mae'r llawr isaf, sy'n cynnwys yr ystafell fyw, yr ystafell fwyta, y snyg a'r gegin, i gyd ar yr un lefel, ac yn darparu digonedd o le. Mae'r waliau yn olau, a'r drysau a fframiau o bren tywyll. Mae gan lawr yr ystafell fyw ymyl pren, a charped yn y canol. Mae ymyl bychan ar ffrâm isaf y drws sy'n arwain o'r ystafell fyw i'r snyg, sydd â llawr llechi. Mae'r ystafell fwyta wedi ei charpedu, a lino sy'n llawr i'r gegin.

Mae ystafell gotiau a sgidiau pellach ynghlwm â'r gegin, ac mae drws â gris o 13cm yn arwain iddi. Llawr teils pridd coch sydd i'r ystafell hon, ac mae ar ychydig bach o oledd.

Mae ffenestri ymhob ystafell sy'n darparu digonedd o oleuni naturiol, a cheir golau trydan drwy gyfuniad o lampiau wal a golau o'r nenfwd.

Gwyliau Gorwel

Mae'r grisiau (83cm o led) sydd wedi'u carpedu yn arwain o'r snyg i'r llawr cyntaf, gyda chanllaw ar yr ochr dde wrth esgyn. Mae llawr y llawr cyntaf, oherwydd oed yr adeilad, rhywfaint yn anwastad. Mae'r cyfan wedi'i garpedu, ar wahân i'r ystafell ymolchi sydd â llawr lino. Mae 3 ystafell wely, â digon o oleuni naturiol, dwy ystafell wedi'u goleuo â lampau wal a'r llall â golau o'r nenfwd. Mae'r ystafell ymolchi yn olau, ac mae iddi nenfwd a goledd ynddo.

Mae'r waliau yn olau drwyddi draw, a'r drysau a fframiau o bren tywyll. Mae lled agoriadau'r drysau yn amrywio, â'r culaf yn 68cm. Mae dau ddrws ar y llawr cyntaf yn is na 6 troedfedd.

Mae'r holl socedi trydan - ar wahân i rai ar lefel wyneb gweithio'r gegin, oddeutu 25cm o'r llawr, a'r switshis golau oddeutu 130cm.

Mae gan y TELEDU/DVD rheolydd o bell. Mae signal ffôn Vodafone cryf a signal Orange/T-Mobile/Virgin gwan.

------------------------------------------------------------

Yng nghornel uchaf y bwthyn mae ystafell golchi dillad sy'n cael ei rhannu rhwng y tri bwthyn. Mae gris o 20cm i fynd i mewn iddi, ac mae ganddi lawr teils. Mae socedi trydan a swîts golau ar uchdwr o oddeutu 115cm.